**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

8 Medi 2023

Annwyl Peredur,

**Papurau tystiolaeth yn ategu Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Ar ôl ein cyfarfod adeiladol a'm hymateb dilynol i'ch llythyr dyddiedig 23 Mehefin ynghylch sylwadau Pwyllgorau'r Senedd ar bapurau tystiolaeth Cyllideb Ddrafft y Gweinidogion, cytunwyd i'n swyddogion gydweithio i lunio templed ar gyfer y papurau tystiolaeth.

Rwy'n awyddus i hyn barhau dros yr wythnosau nesaf wrth inni ddechrau ar y broses osod ar gyfer y Gyllideb nesaf. Byddai'n ddefnyddiol symud ymlaen gyda'r trafodaethau hyn gydag arwydd clir gan y Pwyllgor o'r hyn y byddech chi'n ei rag-weld yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth gweinidogol. Dylai unrhyw gynigion gennych fod yn berthnasol i bob Prif Grŵp Gwariant (MEG) yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau gwariant un Gweinidog. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe byddai'r Pwyllgor Cyllid yn darparu un rhestr o gynigion ar ran pob Pwyllgor.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r themâu sy'n ymddangos yng ngheisiadau'r Pwyllgorau wedi cynnwys ceisiadau i Weinidogion ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â themâu cyffredin fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb.

Bydd yr holl gynigion a ddarperir gan y Pwyllgor Cyllid yn cael eu hystyried yn ofalus, a byddwn yn rhag-weld y bydd unrhyw gynigion y cytunwn arnynt, ac y gall Gweinidogion eu rhoi ar waith yn yr amser sydd ar gael, yn cael eu cynnwys yn y templed sengl a ddefnyddir i gyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig.

Mae angen cydnabod yr amgylchiadau anodd iawn yr ydym yn eu hwynebu wrth bennu'r Gyllideb sydd ar ddod. Wrth gynnig themâu, efallai yr hoffech ystyried sut y gall templed

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

weithio ym mhob blwyddyn ac nid mewn un flwyddyn yn unig pan fo'r amgylchiadau economaidd yn hynod heriol.

Eleni, mae angen pwysleisio sut mae'r amgylchiadau sy'n dylanwadu ar lunio'r Gyllideb Ddrafft yn debygol o'i gwneud yn amhosibl i Weinidogion unigol ddarparu'r manylion penodol sy'n ymwneud â phob MEG y gofynnwyd amdanynt mewn blynyddoedd blaenorol. Yn yr amser sydd ar gael, mae tystiolaeth Gweinidogion yn debygol o ganolbwyntio ar egluro unrhyw newidiadau o gynlluniau gwariant a gyhoeddwyd, ac y craffwyd arnynt, yn flaenorol. O ganlyniad, rwy'n rhag-weld Gweinidogion yn darparu unrhyw fanylion penodol i MEG yn eu hatebion i unrhyw gwestiynau a ofynnir pan fyddant yn mynychu'r Pwyllgorau ym mis Ionawr.

Er ni allaf gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i'r Pwyllgorau, byddaf yn cadarnhau hyn cyn gynted ag y gallaf wneud hynny.

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid am ei gyfraniad parhaus wrth inni weithio gyda'n gilydd i wella'r ffordd o gyflwyno'r Gyllideb Ddrafft ac o graffu arni. Yn hyn o beth, hoffwn ailadrodd fy nghynnig ar gyfer Pwyllgorau'r Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar y Gyllideb Ddrafft i gael y papur briffio technegol nad yw ond wedi'i ddarparu i'r tîm clercio hyd yma.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**